Polisi Cyfathrebu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Medi 2018

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol yn angenrheidiol er mwyn hybu cynnydd ein disgyblion. I'r diben hwn mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni trwy:

- Ap ParentMail
- Gwefan yr ysgol (www.cwmrhymni.com)

Yn ogystal â hyn rydym wrth gwrs yn annog rhieni i ddefnyddio'r dyddiadur gwaith cartref, i fynychu nosweithiau rhieni yn rheolaidd, ac i drefnu cyfarfodydd gydag aelodau o'r tîm lles a chynnydd pan fod angen.

Mae'n bwysig bod unrhyw fath o gyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni yn digwydd mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol ar bob adeg. Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw achosion o anghwrteisi, neu ymddygiad ymosodol neu wrthgymdeithasol tuag at unrhyw aelod o staff.

Ymweld â'r Ysgol

Yn achlysurol fe fydd rhieni yn dymuno ymweld â'r ysgol i drafod cynnydd eu plentyn. Mae'n bwysig cofio bod athrawon yn brysur yn addysgu, ac felly dylid ar bob achlysur wneud apwyntiad trwy ffonio o flaen llaw. Yr ysgol fydd yn penderfynu pwy yw'r person mwyaf addas i fynychu unrhyw gyfarfod gyda rhieni; noder ni fydd yn bosib siarad gydag athrawon pwnc oni bai am nosweithiau rhieni. Mewn argyfwng, os yw rhieni'n ymweld â'r ysgol heb apwyntiad gwnawn ein gorau i drefnu bod rhywun addas ar gael er mwyn cymryd manylion a throsglwyddo'r wybodaeth i'r person perthnasol. Cedwir cofnod o bob cyfarfod.

Ffonio'r Ysgol

Mae llinellau ffôn yr ysgol yn gallu bod yn brysur iawn; gwnawn ein gorau i ateb y ffôn cyn gynted â phosib. Mae'n bwysig cofio bod athrawon yn brysur yn addysgu; os nad oes aelod o'r tîm lles a chynnydd ar gael cymerir neges a gwnawn ein gorau i ddychwelyd eich galwad cyn gynted â phosib. Byddwn yn ymateb i bob galwad ffôn o fewn pum diwrnod gwaith. Yr ysgol fydd yn penderfynu pwy yw'r person mwyaf addas i ddelio gyda'r ymholiad; noder ni fydd yn bosib siarad gydag athrawon pwnc oni bai am nosweithiau rhieni. Cedwir cofnod o bob galwad ffôn.

Llythyron / E-byst

Byddwn yn ymateb i lythyron ac e-byst o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr/e-bost.

Cyfryngau Cymdeithasol

Ni fyddwn yn cyfathrebu gyda rhieni o gwbl trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ni fydd aelodau o staff yn derbyn disgyblion na rhieni fel "ffrindiau" nac yn ymateb i unrhyw negeseuon a ddanfonir.

ParentMail / Cyfrifon Trydar Swyddogol yr Ysgol

Defnyddir y dulliau hyn er mwyn darlledu negeseuon yn unig.

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Communication Policy

September 2018

Effective communication between school and home is essential in order to ensure pupil progress. We communicate with parents via:

- Our ParentMail App
- Our website (www.cwmrhymni.com)

In addition we of course encourage parents to use the homework diary, to attend parents' evenings, and to arrange meetings with members of the pastoral and progress team when needed.

It is important that any type of communication between the school and parents is conducted in a polite and professional manner at all times. The school will not tolerate any instances of rudeness, or aggressive or antisocial behaviour towards any members of staff.

Visiting the School

Occasionally parents will need to visit the school to discuss the progress of their child. It is important to remember that teachers are busy teaching, therefore parents should always make an appointment beforehand by telephoning the school. The school will decide upon the most appropriate person to attend any meetings with parents; please note it will not be possible to meet with subject teachers apart from parents' evenings. In an emergency if parents visit the school without an appointment we will try our best to ensure that an appropriate member of staff is available to take details of any query and transfer this information to the relevant person. The school will keep a record of every meeting.

Telephoning the School

The school's telephone lines can be extremely busy; we will try our best to answer calls as quickly as possible. It is important to remember that teachers are busy teaching, therefore if no member of the pastoral and progress team is available a message will be taken and we will try to return the call at our earliest convenience. We will respond to all telephone calls within five working days. The school will decide upon the most appropriate person to answer any query; please note it will not be possible to meet with subject teachers apart from parents' evenings. The school will keep a record of every telephone call.

Letters / E-mails

We will respond to letters and e-mails within five working days of receiving the letter/e-mail.

Social Media

We will not communicate with parents at all using social media. Members of staff will not accept pupils or parents as "friends" and will not respond to any messages sent.

ParentMail / Official School Twitter Accounts

These methods of communication will be used to broadcast messages only.